



Llywodraeth Cymru

Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion

Cod Ymarfer ar Swyddogaeth y Cyfarwyddwr
Gwasanaethau Cymdeithasol o dan Ran 8
(Swyddogaethau Gwasanaethau Cymdeithasol)
o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant
(Cymru) 2014

Dyddiad cyhoeddi: **Chwefror 2016**

Cod Ymarfer ar Swyddogaeth y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol o dan Ran 8 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 – Crynodeb o'r Ymgynghoriad

<u>Cynnwys</u>	Tudalen
-----------------------	----------------

Adran 1

Cyflwyniad	2
Cefndir	2
Grwpiau cyfeirio	3
Yr ymgynghoriad	3
Y cynnig	4

Adran 2

Ymateb cyffredinol	5
--------------------	---

Atodiad A – Rhestr o'r ymatebwyr

Adran 1

Cyflwyniad

Cafodd Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ("y Ddeddf") Gydsyniad Brenhinol ar 1 Mai 2014. Mae'r Ddeddf yn sail i'r fframwaith statudol newydd ar gyfer gofal cymdeithasol yng Nghymru a disgwylir iddi ddod i rym ym mis Ebrill 2016.

Mae Adran 144 y Ddeddf yn mynnu bod awdurdod lleol yn penodi cyfarwyddwr gwasanaethau cymdeithasol at ddibenion ei swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol. Ni chaniateir i awdurdod lleol benodi person yn gyfarwyddwr iddo oni bai ei fod yn fodlon bod y person hwnnw wedi dangos y cymwyseddau a bennwyd gan Weinidogion Cymru mewn cod ymarfer neu reoliadau.

Mae Adran 145 y Ddeddf yn caniatáu i Lywodraeth Cymru gyflwyno codau ymarfer i awdurdodau lleol ar arfer swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol. Maent yn cynnwys cod sy'n nodi'r cymwyseddau sy'n ofynnol gan Adran 144.

Cefndir

Mae Gweinidogion Cymru wedi nodi'n glir eu bod am i elfennau craidd y fframwaith statudol newydd fod ar waith erbyn mis Ebrill 2016, pan fydd y Ddeddf yn cael ei gweithredu.

Bydd y fframwaith statudol yn cynnwys tair prif elfen: y Ddeddf ei hun, rheoliadau a wneir dan y Ddeddf, a chodau ymarfer/canllawiau statudol. Mae'r tair elfen hyn yn cydweithio â'i gilydd i ffurfio'r fframwaith y bydd gwasanaethau cymdeithasol yn gweithredu oddi mewn iddo o fis Ebrill 2016 ymlaen.

Bydd y cod ymarfer ar swyddogaeth y cyfarwyddwr gwasanaethau cymdeithasol yn cael ei osod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar 2 Chwefror 2016 ac, os na cheir unrhyw wrthwynebiadau, bydd yn cael ei gyhoeddi erbyn mis Ebrill 2016.

O gofio y bydd cyfarwyddwr gwasanaethau cymdeithasol yn darparu arweinyddiaeth strategol ynghylch cyflawni llawer o'r swyddogaethau sydd yn y Ddeddf, nodwyd bod yn rhaid i'r cod hwn gael ei lywio gan y codau ymarfer ynghylch rhannau eraill y Ddeddf. O ganlyniad, yn hytrach na'i fod wedi'i gynnwys yn gynharach ymysg y codau ymarfer eraill a ddatblygwyd i ategu'r Ddeddf, mae'r cod ymarfer ar swyddogaeth y cyfarwyddwr gwasanaethau cymdeithasol yn 'elfen gwblhau' a dyma'r cod sydd wedi'i ddatblygu olaf felly.

Grwpiau cyfeirio

O'r cychwyn cyntaf ymrwymodd Llywodraeth Cymru i weithio gyda phobl er mwyn iddynt helpu i ddylanwadu ar y modd y caiff y Ddeddf ei gweithredu, gan gynnwys y codau ymarfer. Nod yr ymrwymiad hwnnw oedd sicrhau'r newid mewn ymarfer a diwylliant a gaiff ei ysgogi gan y Ddeddf.

Er mwyn sicrhau bod y cod yn cael ei ddarparu, sefydlodd Llywodraeth Cymru grŵp cyfeirio yn ystod haf 2015. Roedd y grŵp hwnnw'n cynnwys rhanddeiliaid uwch allweddol a oedd â'r arbenigedd perthnasol, y wybodaeth dechnegol a'r profiad ymarferol i weithio gyda swyddogion er mwyn nodi'r cymwyseddau ar gyfer cyfarwyddwyr gwasanaethau cymdeithasol. Yn ogystal â nodi'r cymwyseddau hynny, cafwyd gwybodaeth gan y grŵp ynglŷn â sut y dylai cod nodi'r gofynion sy'n angenrheidiol i gyflawni swyddogaeth y cyfarwyddwr gwasanaethau cymdeithasol yn fwy cyffredinol.

Cyfarfu'r grŵp hwn deirgwaith yn ystod haf 2015 a chyfrannodd eu casgliadau'n sylweddol at y gwaith o ddatblygu'r cod ymarfer drafft ar swyddogaeth y cyfarwyddwr gwasanaethau cymdeithasol.

Yr ymgynghoriad

Roedd y cod drafft yn destun ymgynghoriad ffurfiol chwe wythnos o hyd rhwng 23 Hydref a 4 Rhagfyr 2015. Roedd yr ymgynghoriad yn cynnwys cyflwyniad i Gymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (ADSS Cymru). Cafwyd 17 o ymatebion ysgrifenedig sylweddol i'r ymgynghoriad gan ystod eang o sefydliadau statudol, grwpiau trydydd sector a chyrff proffesiynol. Roedd y rheini'n cynnwys 14 o awdurdodau lleol, Cymdeithas Prif Weithredwyr yr Awdurdodau Lleol (SOLACE) ac ADSS Cymru / Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) a luniodd ymateb ar y cyd.

Roedd yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn gefnogol yn gyffredinol ac roedd yr awgrymiadau a gafwyd yn canolbwyntio ar fanylion, ychwanegiadau bach a newidiadau i'r testun. Cafodd y rhan fwyaf o'r awgrymiadau eu derbyn oherwydd barnwyd eu bod yn cyd-fynd â'r safbwynt polisi cyffredinol.

Mae'r adroddiad cryno hwn ar yr ymgynghoriad, sy'n nodi manylion yr ymatebion a gafwyd i bob un o'r cwestiynau a'r modd y mae Llywodraeth Cymru wedi ymateb iddynt, wedi'i gyhoeddi yn y fan hon:

<http://llyw.cymru/consultations/healthsocialcare/code-of-practice/?lang=cv>

Mae rhestr lawn o'r derbynwyr ynghlwm yn Atodiad A. Mae crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad yn ogystal â dadansoddiad Llywodraeth Cymru i'w weld yn Adran 2.

Y dystiolaeth dros newid

Cafodd y canllawiau cyfredol ar gyfer cyfarwyddwr gwasanaethau cymdeithasol, *"Canllawiau Statudol ar Swyddogaeth ac Atebolrwydd*

Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol”, eu cyflwyno yn 2009 dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol Awdurdodau Lleol 1970. Cafodd y canllawiau hynny eu hystyried gan y grŵp cyfeirio wrth i'r cod hwn gael ei ddatblygu.

Mae'r cod ymarfer hwn yn ofynnol er mwyn adlewyrchu'r cyd-destun deddfwriaethol newydd a'r cyd-destun newydd o ran polisi a grëir gan y Ddeddf.

Y cynnig

Caiff y cod ymarfer ar swyddogaeth y cyfarwyddwr gwasanaethau cymdeithasol ei rannu'n benodau sy'n adlewyrchu'r materion allweddol y bydd angen i gyfarwyddwr eu hystyried. Yn dilyn rhagymadrodd a phenodau rhagarweiniol, mae'r penodau dan sylw'n ymdrin â'r canlynol:

- Dull llywodraethu ac atebolrwydd cyfarwyddwr gwasanaethau cymdeithasol
- Swyddogaethau penodol yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014
- Datblygu'r gweithlu
- Adroddiad blynyddol.

Mae'r bennod olaf yn rhestru'r cymwyseddau sy'n ofynnol ar gyfer swyddogaeth y cyfarwyddwr gwasanaethau cymdeithasol.

Caiff swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol dan y Ddeddf eu rhestru yn Atodiad 1. Caiff safonau ansawdd ar gyfer mesur swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol eu rhestru yn Atodiad 2.

Dylid darllen y cod hwn ar y cyd â'r holl godau ymarfer a gyflwynwyd dan y Ddeddf.

Adran 2 – Ymateb i gwestiynau'r ymgynghoriad

Ymateb cyffredinol

Ar y cyfan roedd yr ymatebion a gafwyd i'r ymgynghoriad yn cefnogi'r cynigion a gyflwynwyd yn y cod drafft. Yn gyffredinol, roedd yr awgrymiadau a gafwyd gan yr ymatebwyr yn canolbwyntio ar fanylion, ychwanegiadau bach a newidiadau i'r testun.

Croesawodd SOLACE (Cymru) y cyfle i wneud sylwadau a diolchodd i Lywodraeth Cymru am y modd yr oedd y grŵp cyfeirio uwch a sefydlwyd i ddatblygu'r cod wedi'i alw ynghyd a'i reoli.

Cwestiwn 1:

	1. I ba raddau rydych yn cytuno mai'r cymwyseddau a nodwyd ym mharagraff 82 yw'r rhai cywir i sicrhau bod cyfarwyddwr gwasanaethau cymdeithasol yn gallu cyflawni swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol awdurdod lleol yn effeithiol?				
	Cytuno	Yn dueddol o gytuno	Yn dueddol o anghytuno	Anghytuno	Dim tic
Cyfanswm -	7	7	0	0	3

Crynodeb

Cafwyd cryn dipyn o gefnogaeth i'r cymwyseddau a nodwyd ym mhennod 7 y cod drafft ac roedd llawer o'r ymatebwyr, gan gynnwys Cyngor Gofal Cymru, yn teimlo bod y cymwyseddau'n briodol ac yn berthnasol ar y cyfan. Roedd llawer o'r ymatebwyr hefyd yn cefnogi'r dull gweithredu a fabwysiadwyd i sicrhau bod y cymwyseddau'n gyson â Model Ymddygiad Grŵp Arwain y Gwasanaeth Cyhoeddus yng Nghymru.

Yn ogystal, cafwyd sylwadau defnyddiol gan nifer o ymatebwyr ynghylch sut y gellid mireinio'r cymwyseddau ymhellach ac ychwanegu atynt.

Roedd llawer o'r ymatebwyr, gan gynnwys Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, yn cefnogi'r cymhwysedd sy'n mynnu bod cyfarwyddwr gwasanaethau cymdeithasol yn cymryd camau rhagweithiol i hyrwyddo a hwyluso integreiddio rhwng gwasanaethau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol. Fodd bynnag, awgrymodd nifer o ymatebwyr, gan gynnwys ADSS Cymru a CLILC, y dylid ychwanegu at y cymhwysedd hwn er mwyn mynnu bod cyfarwyddwr yn hyrwyddo ac yn hwyluso cydweithredu, yn ogystal ag integreiddio, rhwng gwasanaethau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol. Awgrymodd ymatebwyr y byddai'r ychwanegiad hwn yn ymdrin yn well â'r sgiliau y mae eu hangen ar gyfarwyddwr i ddatblygu'r awyrgylch a'r hinsawdd sy'n galluogi pobl i gydweithio'n fwy effeithiol â'i gilydd.

Yn ogystal, awgrymodd sawl ymatebydd fod deallusrwydd emosiynol yn nodweddiadol bwysig y gellid ei chynnwys yn y cymwyseddau er mwyn adeiladu ar

y rhinweddau craidd a nodwyd eisoes yn y cod.

Mynegodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam bryder y gallai'r gofyniad i fod â phrofiad sylweddol o reoli a darparu gwasanaethau gofal cymdeithasol effeithiol ddiystyru unigolion nad ydynt efallai wedi rheoli neu ddarparu gwasanaethau gofal cymdeithasol yn benodol o'r blaen ond sydd â'r sgiliau arwain priodol y gellir eu trosglwyddo er mwyn cyflawni swyddogaeth y cyfarwyddwr.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Mewn ymateb i'r awgrym gan ADSS Cymru, CLILC ac eraill, mae'r cymhwysedd ynghylch integreiddio gwasanaethau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol wedi'i ehangu yn y cod er mwyn mynnu bod cyfarwyddwr yn hyrwyddo ac yn hwyluso cydweithredu rhwng gwasanaethau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol. Yn ogystal, ychwanegwyd at y cymhwysedd ynghylch dysgu a hunanymwybyddiaeth ac mae bellach yn mynnu bod y cyfarwyddwr yn dangos deallusrwydd emosiynol.

Mewn ymateb i safbwyntiau sawl ymatebydd, gan gynnwys Coleg y Therapyddion Galwedigaethol, a oedd yn teimlo y dylai'r cod gynnwys ffocws mwy amlwg ar bwysigrwydd sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu llunio ar y cyd, mae gwaith llunio ar y cyd wedi'i ychwanegu at gymwyseddau'r cyfarwyddwr. Yn benodol, mae gofyniad sy'n mynnu bod y cyfarwyddwr yn cyfrannu at arwain y gwaith o ddatblygu atebion a luniwyd ar y cyd wedi'i gynnwys erbyn hyn.

Mae'r cymhwysedd yn y cod drafft, sy'n mynnu bod gan gyfarwyddwr brofiad sylweddol o reoli a darparu gwasanaethau gofal cymdeithasol effeithiol, wedi'i ehangu yng ngoleuni pryderon Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam er mwyn nodi bod yn rhaid i'r cyfarwyddwr gael profiad sylweddol o reoli a darparu gwasanaethau gofal a chymorth effeithiol.

Cwestiwn 2:

	2. I ba raddau rydych yn cytuno bod swyddogaeth y cyfarwyddwr gwasanaethau cymdeithasol yn glir?				
	Cytuno	Yn dueddol o gytuno	Yn dueddol o anghytuno	Anghytuno	Dim tic
Cyfanswm -	7	6	0	0	4
Crynodeb					
Roedd llawer o'r ymatebwyr, gan gynnwys ADSS Cymru, yn teimlo bod y cod drafft yn egluro swyddogaeth cyfarwyddwr mewn modd clir a chryno. Cafwyd cefnogaeth i'r gofyniad yn y cod drafft sy'n mynnu bod cyfarwyddwr yn cael cyswllt uniongyrchol â chynghorwyr a'r pennaeth gwasanaeth cyflogedig a'i					

fod yn adrodd wrthynt, a'r gofyniad iddo fod yn rhan o dîm rheoli corfforaethol yr awdurdod lleol.

Roedd rhai o'r ymatebwyr yn teimlo y byddai'n ddefnyddiol ehangu'r adran hon o'r cod er mwyn egluro atebolrwydd y cyfarwyddwr gan gyfeirio at aelodau penodol o'r Cyngor. Yn ogystal, awgrymodd Cyngor Sir y Fflint y dylai swyddogaeth y cyfarwyddwr gael ei hegluro o safbwynt ei pherthynas â'r fframwaith canlyniadau cenedlaethol.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae'r gofyniad yn y cod, sy'n mynnu bod y cyfarwyddwr yn codi ymwybyddiaeth o'i swyddogaeth ymysg cynghorwyr, wedi'i ehangu mewn ymateb i awgrymiadau er mwyn nodi bod hynny'n cynnwys sut y gall aelodau arweiniol perthnasol gynorthwyo'r swyddogaeth a dwyn deiliaid swyddi i gyfrif.

Mewn ymateb i'r awgrym gan Gyngor Sir y Fflint ynghylch sicrhau bod y cod yn cyd-fynd yn fwy helaeth â'r fframwaith canlyniadau cenedlaethol, mae'r cod wedi'i ddiweddarau er mwyn disgrifio'r chwe safon ansawdd a ddisgrifir yn y cod ymarfer mewn perthynas â mesur perfformiad gwasanaethau cymdeithasol, a gyflwynwyd dan y Ddeddf. Yn ogystal, mae'r cod wedi'i ddiweddarau er mwyn egluro bod y safonau ansawdd hyn yn disgrifio'r gweithgareddau awdurdodau lleol sy'n cyfrannu at gyflawni canlyniadau llesiant fel y nodir yn y datganiad llesiant.

Cwestiwn 3 (i)

	3. (i) I ba raddau rydych chi'n cytuno bod atebolrwydd y cyfarwyddwr gwasanaethau cymdeithasol wedi'i ddiffinio'n ddigonol?				
	Cytuno	Yn dueddol o gytuno	Yn dueddol o anghytuno	Anghytuno	Dim tic
Cyfanswm -	6	6	0	1	4

Crynodeb

Cafwyd llawer o ymatebion cadarnhaol i'r cwestiwn hwn, gan gynnwys ymateb gan Gyngor Sir Ddinbych a nododd fod atebolrwydd y cyfarwyddwr o safbwynt swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol wedi'i fynegi'n glir yn y cod. Dywedodd ADSS Cymru, CLILC a'r cyfarwyddwyr gwasanaethau cymdeithasol ar gyfer y canolbarth a'r gorllewin eu bod yn teimlo bod atebolrwydd y cyfarwyddwr wedi'i ddiffinio'n glir ac y byddai'n cael ei ategu gan y berthynas rhwng y cyfarwyddwr a'r pennaeth gwasanaeth cyflogedig, fel y nodir yn y cod.

Awgrymodd Coleg y Therapyddion Galwedigaethol y gallai fod yn ddefnyddiol i'r cod gael ei ddiweddarau er mwyn mynnu bod awdurdodau lleol yn ystyried yn fwy amlwg yr hyn sy'n digwydd mewn gwasanaethau sydd wedi'u hintegreiddio'n dda, er enghraifft lle caiff swyddogaethau eu dirprwyo i staff a

gyflogir gan eraill. Yn ogystal, awgrymodd y Coleg y gallai'r cod fod yn fwy clir ynghylch atebolrwydd cyfarwyddwr o safbwynt byrddau partneriaeth rhanbarthol newydd.

Nododd Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn ei ymateb ef nad oedd yn teimlo bod y cod yn canolbwyntio ddigon ar bwysigrwydd sicrhau bod prosesau rheoli perfformiad effeithiol ar waith mewn awdurdod lleol.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Dan is-adran 'atebolrwydd y cyfarwyddwr' y cod, mae paragraff wedi'i ychwanegu erbyn hyn i nodi, os yw gwasanaethau wedi'u hintegreiddio, mai'r cyfarwyddwr gwasanaethau cymdeithasol sy'n dal yn atebol am swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol. Dan yr adran hon, mae paragraff newydd wedi'i ychwanegu hefyd er mwyn egluro bod Pennod 4 y cod yn nodi swyddogaeth y cyfarwyddwr gwasanaethau cymdeithasol o safbwynt trefniadau newydd ar gyfer gweithio mewn partneriaeth drwy'r byrddau partneriaeth rhanbarthol a'r Byrddau Diogelu.

Mewn ymateb i'r pryderon a fynegwyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, mae'r cod wedi'i ddiweddarau erbyn hyn er mwyn nodi bod yn rhaid i gyfarwyddwr sicrhau bod prosesau rheoli perfformiad effeithiol ar waith.

Cwestiwn 3 (ii)

	3. (ii) I ba raddau rydych chi'n cytuno bod swyddogaeth gorfforaethol y cyfarwyddwr gwasanaethau cymdeithasol o fewn awdurdod lleol wedi'i diffinio'n ddigonol?				
	Cytuno	Yn dueddol o gytuno	Yn dueddol o anghytuno	Anghytuno	Dim tic
Cyfanswm -	6	7	0	0	4

Crynodeb

Roedd yr ymatebion i'r cwestiwn hwn yn gadarnhaol yn gyffredinol a nododd sawl ymatebydd, gan gynnwys ADSS Cymru, fod sicrhau bod y cod yn datgan bod yn rhaid i'r cyfarwyddwr gwasanaethau cymdeithasol fod yn rhan o'r tîm rheoli corfforaethol yn ffordd ddefnyddiol o sicrhau bod y cyfarwyddwr yn gallu cyfrannu at weledigaeth y cyngor a'r cyfeiriad y mae'r cyngor yn mynd iddo.

Tynnodd rhai o'r ymatebwyr sylw at y ffaith bod llawer o gyfarwyddwyr gwasanaethau cymdeithasol yn gynyddol yn cyflawni swyddogaeth genedlaethol o safbwynt arwain ym maes blaenoriaethau cyfredol neu ddeddfwriaeth newydd. Awgrymodd ADSS Cymru y dylai hynny gael ei gydnabod yn y cod. Yn gysylltiedig â hynny, awgrymodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy y dylid cynnwys cyfeiriad penodol at swyddogaeth ADSS Cymru a gwerth y Gymdeithas honno o safbwynt cynorthwyo swyddogaeth y cyfarwyddwr.

O ran y modd y mae'r cod yn nodi bod yn rhaid i'r cyfarwyddwr adnabod blaenoriaethau, heriau a risgiau ar draws pob agwedd ar wasanaethau cymdeithasol, a chynghori cynghorwyr yn eu cylch, nododd Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda y gellid atgyfnerthu hynny drwy gynnwys cyfrifoldeb yn y cod i dynnu sylw at feysydd lle ceir cyd-ddibyniaeth rhwng asiantaethau.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Mewn ymateb i'r ffaith bod rhai o'r ymatebwyr wedi tynnu sylw at y swyddogaeth genedlaethol y mae cyfarwyddwyr yn ei chyflawni, gellid cyflwyno dadleuon dros gynnwys y mater hwn yn y cod ond daethpwyd i'r casgliad na fyddai'n briodol gwneud hynny oherwydd ei bod yn debygol y byddai'n cyfyngu ar ddisgresiwn y penaethiaid gwasanaeth cyflogedig i leoli eu staff fel y mynnont.

Yn ogystal, mae'r cod wedi'i atgyfnerthu o safbwynt cyd-ddibyniaeth. Yn is-adran 'atebolrwydd' y cod, mae testun ychwanegol wedi'i gynnwys er mwyn nodi bod yn rhaid i gyfarwyddwr adnabod blaenoriaethau, heriau a risgiau ar draws pob agwedd ar wasanaethau cymdeithasol, gan gynnwys meysydd lle ceir cyd-ddibyniaeth rhwng asiantaethau, a chynghori cynghorwyr yn eu cylch.

Cwestiwn 4:

	4. I ba raddau rydych chi'n cytuno bod swyddogaeth a chyfrifoldebau y cyfarwyddwr gwasanaethau cymdeithasol wrth hyrwyddo cydweithredu i wella lles pobl ag anghenion gofal a chymorth wedi'u hamlinellu'n glir?				
	Cytuno	Yn dueddol o gytuno	Yn dueddol o anghytuno	Anghytuno	Dim tic
Cyfanswm -	7	6	0	0	4

Crynodeb

Roedd sawl un o'r ymatebion a gafwyd yn gadarnhaol ynghylch y gofynion sy'n mynnu bod cyfarwyddwr gwasanaethau cymdeithasol yn hyrwyddo cydweithredu mewn ardal awdurdod lleol. Yn benodol, dywedodd Cyngor Sir y Fflint fod swyddogaeth a chyfrifoldeb y cyfarwyddwr o safbwynt hyrwyddo cydweithredu er mwyn gwella llesiant pobl ag anghenion o ran gofal a chymorth wedi'u nodi yn glir yn y cod.

Dywedodd Cyngor Dinas a Sir Abertawe ei bod yn bwysig i'r cod gydnabod bod swyddogaeth y cyfarwyddwr o safbwynt hyrwyddo llesiant hefyd yn cynnwys rhoi sylw dyladwy i Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Pobl Hŷn, hawliau'r plentyn a phobl anabl.

Nododd cyfarwyddwyr yn awdurdodau lleol y canolbarth a'r gorllewin fod cymhlethdod yn eu rhanbarth penodol nhw oherwydd bod byrddau partneriaeth rhanbarthol a Byrddau Diogelu yn ymdrin ag ardaloedd gwahanol.

Mynegodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam bryderon bod hyrwyddo llesiant yn agenda ehangach na'r agenda y gall y cyfarwyddwr gael ei ddwyn i gyfrif amdani ar ei ben ei hun.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae'r cod wedi'i ddiwygio er mwyn egluro bod Adran 7 y Ddeddf yn mynnu bod pob person sy'n arfer swyddogaethau yn rhoi sylw dyladwy i Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Pobl Hŷn a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Byddai hynny'n berthnasol hefyd i'r gwaith o hyrwyddo llesiant.

Mae gan Fyrddau Diogelu a'r byrddau partneriaeth rhanbarthol newydd swyddogaethau statudol gwahanol ac aelodaeth wahanol. Mae Byrddau Diogelu yn galluogi ac yn cynorthwyo gwaith amlasiantaeth er mwyn atal plant ac oedolion rhag cael eu cam-drin neu'u hesgeuluso. Mae'r byrddau partneriaeth rhanbarthol newydd yn cynorthwyo'r gwaith o ddarparu gwasanaethau gofal a chymorth integredig ar lefel weithredol. Mae gwaith yn mynd rhagddo'n dda i ail-lunio'r Byrddau Diogelu Plant cyfredol ar sail y modd y caiff gwasanaethau cyhoeddus eu darparu.

Er mwyn cydnabod natur eang y cyfrifoldeb i hyrwyddo llesiant pobl ag anghenion o ran gofal a chymorth, mae'r cod wedi'i ddiwygio hefyd er mwyn nodi nad yw'r ffaith mai'r cyfarwyddwr sy'n gyfrifol am ddatblygu trefniadau effeithiol ar gyfer cydweithredu er mwyn gwella llesiant y grŵp hwn yn golygu bod modd i bartneriaid eraill ymwrthod â'u cyfrifoldebau a'u dyletswyddau.

Cwestiwn 5:

	5. I ba raddau rydych chi'n cytuno bod swyddogaeth a chyfrifoldeb y cyfarwyddwr gwasanaethau cymdeithasol mewn perthynas â chynllunio'r gweithlu ar draws y sector wedi'u diffinio'n ddigonol?				
	Cytuno	Yn dueddol o gytuno	Yn dueddol o anghytuno	Anghytuno	Dim tic
Cyfanswm -	7	6	1	0	3

Crynodeb

Cafwyd cefnogaeth gyffredinol gan yr ymatebwyr i gynnwys y cod mewn perthynas â chynllunio'r gweithlu. Dywedodd cyfarwyddwyr yn awdurdodau lleol y canolbarth a'r gorllewin eu bod yn arbennig o falch o weld cydnabyddiaeth yn y cod bod angen gweithredu mewn partneriaeth er mwyn cynllunio a datblygu'r gweithlu yn effeithiol. Yn ogystal, roedd Coleg y Therapyddion Galwedigaethol yn croesawu'r disgwyliad yn y cod bod datblygu rhinweddau arwain cadarnhaol yn un o swyddogaethau hollbwysig y cyfarwyddwr.

Mynegodd rhai o'r ymatebwyr bryder ynghylch geiriad y cod o safbwynt y

ffaith bod gan y cyfarwyddwr swyddogaeth strategol i sicrhau safonau uchel ar draws y gweithlu gofal cymdeithasol cyfan. Holodd Cyngor Sir Ddinbych a fyddai hynny'n awgrymu y byddai cyfarwyddwr yn gyfrifol pe bai gan ddarparwr arfer gwael.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae'r cod wedi'i aileirio er mwyn datgan bod gan y cyfarwyddwr swyddogaeth arwain strategol i hyrwyddo safonau uchel ar draws y gweithlu gofal a chymorth. Diben y diwygiadau hyn yw egluro swyddogaeth y cyfarwyddwr yng nghyswllt y sector ehangach.

Yn ogystal, mae'r adran hon o'r cod wedi'i diwygio er mwyn egluro'r gofyniad sy'n mynnu bod cyfarwyddwr yn sicrhau y gellir cyflawni swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol drwy gyfrwng y Gymraeg.

Cwestiwn 6:

	6. I ba raddau rydych chi'n cytuno bod y gofynion mewn perthynas â llunio adroddiad blynyddol yn ddigonol i sicrhau bod y cyfarwyddwr gwasanaethau cymdeithasol yn destun system graffu ac atebolrwydd effeithiol?				
	Cytuno	Yn dueddol o gytuno	Yn dueddol o anghytuno	Anghytuno	Dim tic
Cyfanswm -	4	9	0	0	4

Crynodeb

Cafwyd cytundeb cyffredinol gan yr ymatebwyr ynglŷn â'r gofynion ynghylch adroddiad blynyddol a nodwyd yn y cod drafft. Yn benodol, cafodd y gofyniad i sicrhau bod yr adroddiad ar gael mewn fformat hygrych ei groesawu gan y Comisiynydd Pobl Hŷn. Awgrymodd sawl un o'r ymatebwyr y gallai fod yn ddefnyddiol i'r cod fynd ymhellach o ran hynny a chynnig rhagor o arweiniad ynghylch cyfleu profiadau defnyddwyr gwasanaeth.

Holodd sawl un o'r ymatebwyr ynghylch y berthynas rhwng y cod a'r darpariaethau yn Neddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) sy'n ymwneud ag adroddiadau blynyddol.

Roedd Cyngor Dinas a Sir Abertawe yn teimlo y gallai'r adroddiad blynyddol gael ei ddiffinio'n fwy clir yn y cod fel dull o sicrhau atebolrwydd i ddinasyddion yn hytrach nag fel dull o sicrhau gwaith craffu ac arolygu'n unig. Yn ogystal, roedd rhai o'r ymatebwyr yn teimlo y gallai'r bennod ynghylch adroddiad blynyddol gael ei diwygio er mwyn egluro y bydd y gwaith o hyrwyddo llesiant gan awdurdod lleol yn cael ei gyflawni, mewn rhai achosion, yn rhan o drefniadau partneriaeth rhanbarthol.

Nododd un ymatebydd fel a ganlyn: '[it is] important that the annual report

required by the code, identifies the right issues to report on and that any reports are also qualified by the Regulator as to their accuracy’.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae’r gofynion ynghylch adroddiad blynyddol, sydd yn y cod ymarfer, yn gyson â’r gofyniad statudol newydd sydd yn Neddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru).

O ganlyniad i’r awgrym gan Gyngor Dinas a Sir Abertawe, mae’r cod wedi’i ddiweddarau er mwyn egluro bod adroddiadau blynyddol yn ffordd allweddol y gall awdurdodau lleol ddangos atebolrwydd i ddinasyddion.

Mewn ymateb i’r awgrym y dylid adrodd ynghylch y materion cywir (‘right issues’), mae’r bennod hon yn y cod wedi’i diwygio er mwyn datgan yn glir y gall adroddiad blynyddol nodi profiadau darparwyr gwasanaeth a defnyddwyr gwasanaeth os yw hynny’n briodol. Teimlid y byddai gofyn am safbwyntiau defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr a’u cynnwys yn ffordd effeithiol o nodi’r materion cywir.

Cwestiwn 7:

	7. Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion perthnasol nad ydym wedi cyfeirio atynt, mae croeso i chi eu nodi isod.
Crynodeb Nododd yr ymatebwyr ystod o bwyntiau cyffredinol yn yr adran hon ynglŷn â swyddogaeth gyffredinol cyfarwyddwr gwasanaethau cymdeithasol a’r trefniadau adolygu ar gyfer y polisi ehangach. Croesawodd y Comisiynydd Pobl Hŷn y datganiad yn y cod, sy’n nodi bod pawb yn gyfrifol am ddiogelu plant ac oedolion sydd mewn perygl o gael eu cam-drin neu’u hesgeuluso, ac ychwanegodd ei bod yn hanfodol bod cyfarwyddwyr yng Nghymru yn helpu i godi proffil achosion o gam-drin pobl hŷn yng Nghymru. Yn fwy cyffredinol, nododd yr ymatebwyr bwysigrwydd swyddogaeth y cyfarwyddwr o safbwynt ymgorffori egwyddorion sylfaenol y Ddeddf. Tynnodd rhai o’r ymatebwyr, gan gynnwys ADSS Cymru a CLILC, sylw at bwysigrwydd sicrhau bod cod y cyfarwyddwr yn cael ei adolygu wrth i’r Ddeddf ehangach gael ei gweithredu. Bydd hynny’n sicrhau bod Llywodraeth Cymru yn gallu dysgu o ymarfer ac yn gallu adlewyrchu’r dysgu hwnnw mewn codau ymarfer a deddfwriaeth yn y dyfodol. Nodwyd bod newidiadau yn y dyfodol a achosir gan Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) a Bil Drafft Llywodraeth Leol (Cymru) yn feysydd y mae angen i Lywodraeth Cymru fod yn ymwybodol ohonynt er mwyn monitro unrhyw effeithiau posibl y darnau hyn o ddeddfwriaeth ar god y cyfarwyddwr	

gwasanaethau cymdeithasol.

O ran deddfwriaeth yn y dyfodol, nododd rhai o'r ymatebwyr fod Bil Drafft Llywodraeth Leol (Cymru) yn mynnu ar hyn o bryd bod gan awdurdodau lleol 'brif weithredwr' yn hytrach na phennaeth gwasanaeth cyflogedig.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Ar ôl cyhoeddi'r cod terfynol ac ar ôl i'r Ddeddf ehangach ddod i rym (bwriedir i'r ddau beth ddigwydd ym mis Ebrill 2016) bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i fonitro effaith meysydd deddfwriaeth allweddol eraill ar yr is-ddeddfwriaeth, y canllawiau a'r codau a ddatblygwyd dan y Ddeddf.

Er bod y gofyniad ym Mil Llywodraeth Leol (Cymru) yn mynnu bod gan gynghorau sir 'brif weithredwr' yn hytrach na phennaeth gwasanaeth cyflogedig, dim ond at statud gyfredol y gall y cod ymarfer ar swyddogaeth y cyfarwyddwr gwasanaethau cymdeithasol gyfeirio.

Atodiad A – Rhestr o'r ymatebwyr

Rhif	Cyfrinachol ✓ / ✗		Enw	Sefydliad/Ar ran
1.		✓	Dr Catrin Edwards	Sense Cymru
2.		✓	Gerry Evans	Cyngor Gofal Cymru
3.		✓	Annie Muiyang	Coleg Nyrsio Brenhinol Cymru
4.		✓	David Howes	Cyngor Dinas a Sir Abertawe
5.		✓	Jeremy Patterson	SOLACE (Cymru)
6.		✓	Ruth Crowder	Coleg y Therapyddion Galwedigaethol
7.		✓	Natasha Hughes	Cyngor Sir Ddinbych
8.		✓	Karen Williams	Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
9.		✓	Susan Cooper	Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
10.		✓	David Williams	Gwent/Torfaen
11.		✓	Martyn Palfreman	Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol, Canolbarth a Gorllewin Cymru
12.		✓	Nicola Evans	Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
13.		✓	Hannah Hope	Cyngor Sir Powys
14.		✓	Christy J Jones	Cyngor Sir y Fflint
15.		✓	Andrew Figiel	Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
16.		✓	Mair Kromeri	Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
17.		✓	Jenny Williams	Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy